# CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr M. Lewis a R. Goode (Is-Gadeirydd).

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd D. De'Ath.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Cadeirydd).

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Ymddiheuriad Am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M. Michael Cyngor Dinas a Sir Caerdydd.

(c) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

(d) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(e) Archwilio Cymru – Ymholiadau Archwilio I'r Rhai Sy'n Gyfrifol Am Lywodraethu A Rheoli (PC/SA 151) –

Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybod i aelodau am y wybodaeth a roddwyd i Archwilio Cymru fel rhan o'r Archwiliad Blynyddol o Gyfrifon.

Roedd angen i Archwilio Cymru archwilio cyfrifon ariannol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn unol â'r gofynion a nodir yn y Safonau Archwilio Rhyngwladol (SARh).

Yn rhan o ofynion y SARh, roedd Archwilio Cymru wedi ysgrifennu at y Pennaeth Cyllid yn gofyn am farn ar nifer o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar y gwaith o archwilio'r cyfrifon sy'n berthnasol i'r rheolwyr a'r "rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu".

Nodwyd y meysydd llywodraethu lle y ceisiwyd barn arnynt yn Atodiad A yr adroddiad ynghyd ag ymateb y Cyngor a oedd yn cwmpasu:

- Materion twyll – Atodiad 1
- Materion cyfreithiau a rheoliadau – Atodiad 2; a
- Materion partïon cysylltiedig – Atodiad 3

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD - Nodi cynnwys yr adroddiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(f) Archwiliad O Ddatganiadau Ariannol Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2021/22 (PC/SA 151) -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Pwyllgor adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn archwilio Datganiadau Ariannol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021/22.

Cynhaliwyd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 yn ystod y camau cwblhau terfynol. Roedd Datganiad Cyfrifon diweddaraf 2021/22 yn cynnwys yr holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt ac fe'i cyflwynwyd nawr i Bwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Cynigiwyd y dylid adrodd ar y Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd i Bwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar 27 Medi 2022 i'w gymeradwyo ac y dylai wedyn gael ei lofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y Datganiad Cyfrifon diweddaraf 2021/22 yn cynnwys yr holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt yn bresennol ynghlwm yn Atodiad A. Atodwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol yn Atodiad B.

Doedd dim newid i danwariant 2021/22 gwerth £363k o ganlyniad i'r archwiliad hwn.

Roedd canfyddiadau dros dro Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Penodedig o ran y Datganiadau Ariannol yn cynnwys un argymhelliad oedd yn deillio o'u

hadroddiad, oedd yn ymwneud â datgeliadau trafodion y pleidiau.  Byddai'r mater hwnnw yn cael ei ystyried ar draws y 3 awdurdod lleol.  Adroddwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio diamod ar gyfrifon eleni

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo, y Pwyllgor

PENDERFYNWYD

(1) Cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Cyfrifon 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gan Gadeirydd y Pwyllgor.

(2) Cytuno ar y Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru ar gyfer 2021/22, ei lofnodi a'i ddyddio gan Gadeirydd y Pwyllgor.

(3) Nodi adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr archwiliad o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2021/22.

(4) Cymeradwyo, llofnodi a dyddio Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gan Gadeirydd y Pwyllgor, Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon cyn y dyddiad cau.

(2) Er mwyn dychwelyd y Llythyr Cynrychiolaeth i Archwilio Cymru.

(3) Wedi ystyried canlyniadau'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(4) Er mwyn cymeradwyo a llofnodi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(g) Trosolwg A Diweddariad Ar Wasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR).

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y gwasanaeth a'i gynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn amlinellu sut roedd y gwasanaeth yn gweithio i gyflawni canlyniadau gwell i drigolion a busnesau o fewn y rhanbarth drwy gyfres o wahanol weithredoedd a rhaglenni gwaith. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o

weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y chwarter, wedi'u manylu o dan y meysydd canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Sefyllfa Ariannol Chwarter 1 – Atodiad 1
- Monitro Perfformiad – Atodiad 2
- Cefnogi Iechyd y Cyhoedd gan gynnwys gwaith a heriau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn ymwneud ag achosion o frech y mwncïod
- Cartrefi i Wcráin
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Amddiffyn y rhai agored i niwed

Yn ogystal, mae'r GRhR yn cyhoeddi nifer o gynlluniau gweithredol i gynghori rhanddeiliaid o'r gwaith sydd i'w wneud mewn rhai amgylcheddau. Y ddogfen sydd ynghlwm wrth Atodiad 3 oedd Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2022/23 sy'n nodi sut y bydd y GRhR yn cyflawni ei rôl o ddiogelu iechyd y cyhoedd trwy ymchwilio i achosion ac achosion lluosog o glefydau trosglwyddadwy a defnyddio mesurau rheoli, ataliol a gorfodi. Cytunodd y Pwyllgor i Gynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2022/23 gael ei gymeradwyo.

Yn ogystal, yn Atodiad 4 oedd Cynllun Iechyd Porthladdoedd 2022/23, un arall o gynlluniau gweithredol y GRhR am y flwyddyn. Mae'n nodi sut y byddai'r Gwasanaethau a Rennir yn cyflawni ei rôl o ddiogelu iechyd y cyhoedd trwy gynnal ystod o reolaethau iechyd. Eglurodd y cynllun sut y byddai Tîm Iechyd Porthladdoedd yn cyflawni ei bwrpas o atal a rheoli afiechydon heintus rhag dod i mewn i Gaerdydd, Y Barri a'r cyffiniau drwy'r porthladdoedd a'r maes awyr i amddiffyn iechyd y cyhoedd. Roedd y Cynllun hefyd yn manylu ar y rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â diogelwch bwyd, rheoli bwyd a fewnforiwyd, glanweithdra llongau, dibryfedu, rheoli gwastraff ac iechyd anifeiliaid. Cytunwyd i gymeradwyo Cynllun Iechyd Porthladdoedd.

Holodd y Cadeirydd a oedd yna effaith ddisgwyliedig ar hylendid bwyd o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol, o ran rheoli bwyd a thymheredd, fod pryder y gallai rhai busnes gael eu gorfodi i edrych ar ffyrdd o arbed arian, y byddai hyn yn peri risgiau difrifol i ddefnyddwyr. Byddai hyn yn rhywbeth y byddai angen i'r GRhR ei fonitro.

Wedi hynny

PENDERFYNWYD -

(1) Cytuno ar gynnwys yr adroddiad.

(2) Cymeradwyo'r Cynllun Iechyd Porthladdoedd drafft ar gyfer 2022-23 i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(3) Cymeradwyo'r Cynllun Clefydau Troslgwyddadwy ar gyfer 2022-23 i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Wedi ystyried yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Wedi ystyried cynnwys y Cynllun Iechyd Porthladdoedd drafft ar gyfer 2022-23.

(3) Wedi ystyried cynnwys y Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy ar gyfer 2022-23.

(h) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd A Bwyd Anifeiliaid Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir Ar Gyfer Y Gwasanaeth Rheoliadol A Rennir Ar Gyfer 2022/23 (CAT) -

Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor gymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23.

Rhoddodd yr adroddiad wybod i’r Pwyllgor am waith y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir mewn perthynas â chyfraith Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid. Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor gymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Phorthiant Anifeiliaid y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23.

Holodd y Cadeirydd yr heriau ynghylch recriwtio staff. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol, o ran diogelwch bwyd, tra bod y gwasanaeth yn cael ei adnoddau ar gyfer 31.75 o staff proffesiynol cyfwerth ag amser llawn (CALl) o'r rhain, roedd 4.8 CALl hyn yn bresennol yn cael eu hail-bwrpasu i weithio ar Profi, Olrhain, Diogelu, roedd 2 CALl ar salwch tymor hir ac roedd gan y gwasanaeth 2 swydd wag gan leihau'r adnodd hwnnw'n sylweddol lawr i 8.8CALl. Hyd yn oed pe bai pob swydd yn cael ei meddiannu'n llawn ac yn weithredol, byddai dal diffyg o 7.54 CALl sydd eu hangen i gwrdd â'r gofynion a roddir ar y gwasanaeth Diogelwch Bwyd.

Wedi ystyried yr adroddiad

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo’r Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2022-23 i'w ddefnyddio yn rhanbarth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i’r Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2022-23 yn ôl yr angen.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau'n gyfredol pe bai unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod.